



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales



Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Canllawiau ar Ddiffiniadau Dangosyddion, a Gofynion Data a Thystiolaeth

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF): Echel Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaCh

Fersiwn: 3.0 Medi 2023

**Cronfeydd yr UE:
Buddsoddi yng
Nghymru**
**EU Funds:
Investing in Wales**



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys

Cynnwys	3
Rhestr Termau	4
Amcanion Thematig a Blaenoriaethau Buddsoddi	7
Dangosyddion Canlyniadau ac Amcanion Penodol	9
Amcan Penodol 2.1	10
Amcan Penodol 2.2	11
Amcan Penodol 2.3	12
Amcan Penodol 2.4	13
Amcan Penodol 2.5	14
Diffiniadau o Ddangosyddion	16
Nifer y busnesau sy'n cael grantiau	17
Nifer y busnesau sy'n cael cymorth ariannol heblaw am grantiau	19
Nifer y busnesau sy'n cael cymorth anariannol.....	20
Buddsoddiad mewn busnesau	22
Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus i BBaChau.....	23
Nifer y busnesau sy'n cael cymorth i gyflwyno cynhyrchion sy'n newydd i'r cwmni	25
Cynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau sy'n cael cymorth.....	26
Swyddi wedi'u diogelu: Cymorth ariannol nad yw'n grant	28
Cynnydd mewn lefelau allforio	29
Nifer y busnesau newydd sy'n cael cymorth	30
Busnesau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	31
Busnesau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro.....	33
Atodiad A:Cronfa ddata o Fusnesau	35

Rhestr Termau

Gwasanaethau Cyngori	Ymgynghoriaeth, cymorth a hyfforddiant ym maes trosglwyddo gwybodaeth, caffael, diogelu a defnyddio asedau anniriaethol, defnyddio safonau a rheoliadau sy'n eu hymgorffori.
Cyflogai	Cyflogai fel y'i diffiniwyd yn https://www.gov.uk/employment-status/employee Mae cyflogai yn rhywun sy'n gweithio o dan contract cyflogaeth.
Busnes	Sefydliad sy'n cynhyrchu cynhyrchion neu wasanaethau i ddiwallu anghenion y farchnad er mwyn bod yn broffidiol. Gall y ffurf gyfreithiol ar fusnes amrywio (personau hunangyflogedig, partneriaethau, ac ati). (EC, 2014).
Cyfalaf Ehangu	Buddsoddiadau ecwiti preifat sy'n ceisio lleihau aneffeithlonrwydd a sbarduno twf busnes yn aml drwy gynyddu elw a/neu ffynonellau newydd o dwf referniw.
Cyferth ag amser llawn	Dylai swyddi gael eu nodi'n rhai sy'n gyferth ag amser llawn (FTE), yn seiliedig ar wythnos o 30 awr. Er enghraifft, os yw swydd yn golygu gweithio 30 awr neu fwy bob wythnos, yna mae'n 1 FTE. Os nad yw swydd yn llawn amser, yna bydd angen rhannu'r oriau a weithiwyd bob wythnos â 30 i ganfod y gyfran o FTE a gynrychiolir. Er enghraifft, byddai 18 awr yr wythnos yn 0.6 FTE.
Cymorth Ariannol	Diffinnir cymorth ariannol fel grant lle y rhoddir cymorth ariannol uniongyrchol nad yw'n ad-daladwy yn amodol ar gwblhau prosiect yn unig. Diffinnir cymorth ariannol fel grant lle y rhoddir cymorth ariannol uniongyrchol nad yw'n ad-daladwy yn amodol ar gwblhau prosiect yn unig.
Gros	Cyfanswm y nifer a gyflawnwyd ar gyfer dangosydd drwy weithgarwch y Gronfa Strwythurol (ni waeth beth fo cyfran y

	prosiect a ariennir gan y Cronfeydd Strwythurol) heb ei addasu ar gyfer diffwrwythedd, disodli, gollwng ac effeithiau lluosydd.
Busnesau bach a chanolig	<p>Yn unol ag argymhelliad diffiniedig 2003/362/CE Categori o ficrofusnesau a busnesau bach a chanolig sy'n cyflogi llai na 250 o bobl ac sydd â throsiant blynyddol nad yw'n fwy na 50 miliwn ewro, a/neu fantolen flynyddol nad yw'n fwy na 43 miliwn ewro.</p> <p>Gall BBaChau fod yn fusnesau ymreolaethus, yn fusnesau partner neu'n fusnesau cysylltiedig. Ceir canllawiau ar y diffiniad o'r categorïau hyn ac ar gyfrif pennau a throsiant yn: http://ec.europa.eu/growth/smes/business-friendly-environment/sme-definition/index_en.htm</p>
Menter Gymdeithasol	Menter sydd ag amcanion cymdeithasol yn bennaf, y caiff ei gwargedion eu hailfuddsoddi'n bennaf at y diben hwnnw yn y fenter neu yn y gymuned, yn hytrach na chael ei llywio gan yr angen i wneud yr elw mwyaf posibl i gyfranddalwyr a pherchenogion.
Rhywedd	<p>Mae'r term "rhyw" yn cyfeirio at y nodweddion biolegol a ffisiolegol sy'n diffinio dynion a menywod ac mae'r term "rhywedd" yn cyfeirio at y cynrychioliad cymdeithasol o briodoleddau gwryw a benyw. At ddibenion monitro, argymhellir y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - mewn achosion lle y caiff gwybodaeth ei chasglu'n uniongyrchol oddi wrth gyfranogwyr, dylid cofnodi hunaniaeth cyfranogwyr o ran rhywedd (h.y. y rhyw/rhywedd y mae'r cyfranogwr am uniaethu ag ef); - mewn achosion lle y daw gwybodaeth o gofrestrau, gellir defnyddio'r cofnodion sy'n bodoli eisoes heb ymholi ymhellach.
Gwasanaethau Cymorth	Darparu swyddfeydd, cronfeydd data, llyfrgelloedd, ymchwil i'r farchnad, labordai, gwasanaethau labelu ansawdd, profi ac ardystio at ddiben datblygu cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau mwy effeithiol.

Cyfalaf Menter	Buddsoddiad cyfalaf menter mewn cwmnïau yn ystod y cam dechrau (cysyniad) (o fewn tair blynedd i sefydlu'r cwmni) a'r camau datblygu cynnar
-------------------	---

Amcanion Thematig a Blaenoriaethau Buddsoddi

Amcanion Thematig	3. Gwella Cystadleurwydd Busnes Bach/Canolig (BBaCh).	
	1. Atgyfnerthu gwaith ymchwil, datblygu technolegol ac arloesi.	
Blaenoriaeth Fuddsoddi 3a)	Hyrwyddo entrepreneuriaeth, yn enwedig drwy hwyluso ymelwa'n economaidd ar syniadau newydd a helpu i sefydlu cwmnïau newydd, gan gynnwys drwy unedau hybu busnes.	AP 2.1 AP 2.2
Blaenoriaeth Fuddsoddi 3d)	Cefnogi gallu BBaChau i dyfu mewn marchnadoedd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, ac mewn prosesau arloesi.	AP 2.3 AP 2.4
Blaenoriaeth Fuddsoddi 1b)	Hyrwyddo buddsoddiadau busnes ym maes arloesedd ac ymchwil, a datblygu cysylltiadau a synergeddau rhwng busnesau, canolfannau ymchwil a datblygu ac addysg uwch, yn enwedig datblygu cynhyrchion a gwasanaethau, trosglwyddo technoleg, arloesedd cymdeithasol, eco-arloesi, cymwysiadau gwasanaeth cyhoeddus, ysgogi galw, rhwydweithio, clystyrau ac arloesedd agored drwy arbenigo craff ac ymchwil dechnolegol a chymhwysol ategol, llinellau peilot, camau dilysu cynnyrch cynnar, galluoedd uwch weithgynhyrchu a chynhyrchu cyntaf, yn enwedig mewn Technolegau Galluogi Allweddol ac ymlediad technolegau diben cyffredinol.	AP 2.5

Dangosyddion Canlyniadau ac Amcanion Penodol

Bwriedir i'r dangosydd canlyniadau gynrychioli'r newid a ragwelir o ganlyniad uniongyrchol i'r ymyriad(au) sy'n gysylltiedig â phob amcan penodol. Nodir y rhesymeg dros ddewis y dangosyddion canlyniadau a thargedau rhaglenni yn y priod Raglenni Gweithredol.

Dylai gweithrediadau, yn unol â thablau rhesymeg eu gweithrediad, ganolbwyntio ar eu cyfraniad at y dangosydd canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r amcan penodol.

Dylai'r dewis o ddangosyddion allbwn fel y'u diffiniwyd yn y canllawiau hyn, ddeillio o'r rhesymeg ymyrryd ar gyfer pob gweithrediad a bod yn gyson â'r priod ddangosyddion canlyniadau, amcanion penodol a blaenoriaethau buddsoddi.

Bydd angen darparu tystiolaeth i ddangos y cysylltiadau rhwng nodau ac amcanion, gweithgareddau a dangosyddion. Caiff y dystiolaeth a ddarperir ei nodi yn y Cynllun Busnes, y cytunwyd arni ar y cyd â WEFO.

Data Monitro:

Bydd angen darparu data i ategu hawliadau. Mae Atodiad A yn nodi'r gofynion data **gofynnol** ar gyfer gweithrediadau a ariennir gan WEFO.

Dylai buddiolwyr gasglu data monitro **ychwanegol** er mwyn ei gwneud yn bosibl i effeithiolrwydd ac effaith y gweithrediad gael ei werthuso.

Dylid lanlwytho'r data drwy WEFO ar-lein fel rhan o'r broses hawlio. Mae templed ar gyfer darparu data ar gael ar wefan WEFO.

Mae'r Rhaglenni Gweithredol ar gael yn: <https://llyw.cymru/rhyngwladol-ue>

Mae'r rhain yn amlinellu nodau cyffredinol y rhaglenni y bydd y gweithrediadau yn digwydd oddi mewn iddynt.

Cysylltiadau Defnyddiol ar gyfer ymholiadau a chyngor:

RME.MAILBOX@gov.wales Ymholiadau ynglŷn ag Ymchwil, Monitro a Gwerthuso

WEFOCrossCuttingThemes@gov.wales Ymholiadau ynglŷn â Themâu Trawsbynciol

WEFOverifications@gov.wales Ymholiadau ynglŷn ag archwilio a thystiolaeth

Os bydd ymholiad yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithrediad cymeradwy, yna dylid cysylltu â'r swyddog datblygu prosiect fel y pwynt cyswllt cyntaf.

Amcan Penodol 2.1

Cynyddu faint o gyllid sydd ar gael i BBaChau, i fusnesau newydd a busnesau sy'n ehangu.

		Targed Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (2023)	Targed Dwyrain Cymru (2023)
Dangosydd Canlyniadau	Swm a fuddsoddwyd mewn Cyfalaf Menter a Chyfalaf Ehangu	+ £8-9 m ¹	+£ 1-2m
Dangosyddion Allbwn	Nifer y busnesau sy'n cael cymorth ariannol heblaw am grantiau	235	65
	Buddsoddiad mewn busnesau	£243.0m	£169.0m
	Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus mewn BBaChau – Nid grantiau	€74.8m	£18.7m
	Cynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau sy'n cael cymorth	2,300	650
	Swyddi wedi'u diogelu	3,500	55
	Busnesau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro	190	30
	Busnesau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	190	30

¹ Gwerth llinell sylfaen Cymru £18m (Dadansoddiad Cam Buddsoddi yn ôl Rhanbarth – Swm a fuddsoddwyd yn y DU (Adroddiad Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter BVCA ar Weithgarwch Buddsoddi 2012))

Amcan Penodol 2.2

Cynyddu nifer y BBaChau newydd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth ym maes entrepreneuriaeth.

		Targed Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (2023)	Targed Dwyrain Cymru (2023)
Dangosydd Canlyniadau	Cyfrif genedigaethau busnesau newydd.	+ 8% ²	+ 5% ²
Dangosyddion Allbwn	Nifer y busnesau sy'n cael cymorth anariannol	275	120
	Nifer y busnesau newydd sy'n cael cymorth	5,150	2.200
	Cynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau sy'n cael cymorth	8,800	3.800
	Busnesau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro	2,710	1.170
	Busnesau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	2,710	1.170

² Gwerth llinell sylfaen 4,675 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) 3,595 (Dwyrain Cymru) ((2012) (Demograffeg Busnesau'r SYG)

Amcan Penodol 2.3

Cynyddu nifer y BBaChau sy'n defnyddio ac yn ymwelwa ar rwydweithiau Mynediad at Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf a seilwaith TGCh

		Targed Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (2023)	Targed Dwyrain Cymru (2023)
Dangosydd canlyniadau	Defnydd BBaChau o fand eang ffeibr a chebl	27% ³	27% ³
Dangosyddion allbwn	Nifer y busnesau sy'n cael cymorth anariannol	3,450	900
	Nifer y busnesau sy'n cael cymorth i gyflwyno cynhyrchion sy'n newydd i'r cwmni	1,480	400

³ Llinell sylfaen 22% (Cymru) (2014) (Adroddiad Marchnad Gyfathrebu Ofcom i Gymru) <http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/market-data/communications-market-reports/cmr14/wales/wal-1.03>

Amcan Penodol 2.4

Cynyddu twf y BBaChau hynny â photensial i dyfu, yn enwedig drwy gael mynediad i farchnadoedd newydd (domestig a rhyngwladol)

		Targed Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Targed Dwyrain Cymru
Dangosydd Canlyniadau	Cyflogaeth o fewn BBaChau bach (10-49 o gyflogeion) a chanolig (50-249)	+ 10% ⁴	+6% ⁴
Dangosyddion Allbwn	Nifer y busnesau sy'n cael grantiau	40	10
	Nifer y busnesau sy'n cael cymorth ariannol heblaw am grantiau	330	115
	Nifer y busnesau sy'n cael cymorth anariannol	8,000	5400
	Cynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau sy'n cael cymorth	6,450	2.550
	Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus i BBaChau – Grantiau	£4.3m	£2.2m
	Cynnydd mewn lefelau allforio	£167.1 m	£65.9m
	Busnesau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro.	5,910	3.200
	Busnesau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	5,910	3.200

⁴ Llinell sylfaen 169,100 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd), 117,100 (Dwyrain Cymru), 2013 (Dadansoddiad o Faint y Busnesau yng Nghymru (Llywodraeth Cymru))

Amcan Penodol 2.5

Mynd i'r afael â methiannau'r farchnad o ran argaeledd cyllid, yn enwedig cyfalaf risg, fel y gall BBaChau yng Nghymru arloesi a masnacheiddio ymchwil a datblygu

		Targed Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Targed Dwyrain Cymru
Dangosydd Canlyniadau	Buddsoddiad ecwiti cam cynnar	£12.5m – £16m ⁵	£9.5m - £10m ⁶
Dangosyddion allbwn	Nifer y busnesau sy'n cael cymorth ariannol heblaw am grantiau	90	25
	Buddsoddiad mewn busnesau	£41.4 m	£63.0m
	Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus i BBaChau – Nid grantiau	€20.7 m	€7.2m
	Cynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau sy'n cael cymorth	490	145
	Swyddi wedi'u diogelu	975	90
	Nifer y busnesau sy'n cael cymorth i gyflwyno cynhyrchion sy'n newydd i'r cwmni	20	5
	Busnesau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro	45	13

⁵ Gwerth Llinell Sylfaen £9m (Cymru Gyfan)(2012) Dadansoddiad Cam Buddsoddi yn ôl Rhanbarth – Swm a fuddsoddiwyd (y DU) (Adroddiad Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter BVCA ar Weithgarwch Buddsoddi)

	Busnesau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	45	13
--	---	----	----

Diffiniadau o Ddangosyddion

Nifer y busnesau sy'n cael grantiau

Nifer y busnesau (BBaCh) sy'n cael cymorth ar ffurf cymorth ariannol uniongyrchol nad yw'n ad-daladwy sy'n amodol ar gwblhau'r prosiect yn unig (grantiau).

Dylai gwerth y grant fod yn £1000 o leiaf.

Mae busnes sy'n cael grantiau fwy nag unwaith mewn prosiect yn dal i fod yn un busnes yn unig sy'n cael grantiau yn ystod oes prosiect.

Gall busnes y cofnodir ei fod yn cael grantiau hefyd gael ei gofnodi fel busnes sy'n cael cymorth ariannol heblaw grantiau neu'n cael cymorth anariannol os yw'n cael cymorth perthnasol drwy weithgareddau gwahanol.

Uned:

Busnesau

Gofynion Data:

Dylid cyflwyno data ar bob busnes sy'n cael cymorth pan fydd wedi'i gynnwys mewn hawliad. Dylai tystiolaeth fod ar gael pan fydd yr hawliad yn cael ei wneud. Ceir rhestr gyflawn o feysydd yn yr Atodiad.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Dylid nodi'r dystiolaeth o gymhwysedd, gweithgareddau ac allbynnau yn y Cynllun Busnes a dylid cytuno arni ar y cyd â WEFO. Bydd angen darparu tystiolaeth o statws BBaCh pob busnes sy'n cael cymorth.

Gall busnesau sy'n cael cymorth o dan ERDF ddefnyddio'r ffurflen ddatgan enghreifftiol yng nghanllawiau'r CE i ddefnyddwyr sy'n BBaChau er mwyn cadarnhau statws BBaCh:

<http://ec.europa.eu/DocsRoom/documents/10109/attachments/1/translations/en/renditions/pdf>.

Fel arall, gallai tystiolaeth ddod o gyfrifon y cwmni; cofnodion Tŷ'r Cwmnïau; cronfeydd data megis MINT; croesyfeiriadau at wybodaeth arall a ddelir gan Lywodraeth Cymru neu sydd eisoes wedi'i chyhoeddi ac ati.

Dylid rhoi manylion y gweithgareddau a ariennir gan y grant sydd i'w cynnal a'r berthynas rhwng y rhain a'r allbwn a'r canlyniadau.

Dylid darparu llythyr neu ddogfen briodol oddi wrth y grantwr at y grantî (sy'n cael ei gefnogi gan y prosiect) sy'n nodi swm y grant; diben y grant ac unrhyw amodau sy'n ymwneud â'r grant.

Dylid darparu copi o'r BACS neu Gyfriflen Banc sy'n dangos bod y cyllid wedi cael ei drosglwyddo i gyfrif y busnes.

Nifer y busnesau sy'n cael cymorth ariannol heblaw am grantiau

Nifer y busnesau (BBaChau) sy'n cael cymorth ariannol nad yw'n grant, ar ffurf benthyciad, cymorthdalau llog, gwarant credyd, cyfalaf menter neu offeryn ariannol arall.

Mae busnesau sy'n cael cymorth ariannol fwy nag unwaith yn dal i fod yn un busnes yn unig sy'n cael cymorth ariannol yn ystod oes prosiect.

Gall busnes y cofnodir ei fod yn cael cymorth o dan y dangosydd hwn hefyd gael ei gofnodi fel busnes sy'n cael cymorth anariannol os yw'n cael cymorth perthnasol drwy weithgareddau gwahanol.

Uned:

Busnesau

Gofynion data:

Dylid cyflwyno data ar bob busnes sy'n cael cymorth pan fydd wedi'i gynnwys mewn hawliad. Dylai tystiolaeth fod ar gael pan fydd yr hawliad yn cael ei wneud. Ceir rhestr gyflawn o feysydd yn yr Atodiad.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Dylid nodi'r dystiolaeth o gymhwysedd, gweithgareddau ac allbynnau yn y Cynllun Busnes a dylid cytuno arni ar y cyd â WEFO. Bydd angen darparu tystiolaeth o statws BBaCh pob busnes sy'n cael cymorth.

Gall busnesau sy'n cael cymorth o dan ERDF ddefnyddio'r ffurflen ddatgan enghreifftiol yng nghanllawiau'r CE i ddefnyddwyr sy'n BBaChau er mwyn cadarnhau statws BBaCh:

<http://ec.europa.eu/DocsRoom/documents/10109/attachments/1/translations/en/renditions/pdf>.

Fel arall, gallai tystiolaeth ddod o gyfrifon y cwmni; cofnodion Tŷ'r Cwmnïau; cronfeydd data megis MINT; croesyfeiriadau at wybodaeth arall a ddelir gan Lywodraeth Cymru neu sydd eisoes wedi'i chyhoeddi ac ati.

Dylid darparu manylion am y gweithgareddau a ariennir sydd i'w cynnal a'r berthynas rhwng y rhain a'r allbwn a'r canlyniadau. Dylid darparu llythyr neu ddogfen briodol oddi wrth y cyllidwr i'r BBaCh (sy'n cael ei gefnogi gan y prosiect) sy'n nodi swm y cyllid; diben y cyllid ac unrhyw amdodau a osodir. .

Dylid darparu copi o'r BACS neu Gyfriflen Banc sy'n dangos bod y cyllid wedi cael ei drosglwyddo i gyfrif y sawl sy'n cael y grant

Nifer y busnesau sy'n cael cymorth anariannol

Nifer y busnesau (BBaChau) sy'n cael cymorth nad yw'n golygu trosglwyddiad ariannol uniongyrchol.

Dylid cyfrifo swm y cymorth ar sail gronol. Dim ond gwaith cynghori a gwmpesir gan y cymorth ac nid yw'n cynnwys amser teithio.

O leiaf 1 diwrnod (6 awr) o weithgarwch a gyflawnir drwy waith diagnostig busnes neu ddull cyfatebol. NEU 2 ddiwrnod (12 awr) o gymorth ymgynghoriaeth gweithredol. Dylai gwaith diagnostig busnes arwain at gynllun gweithredu.

Dim ond unwaith yn ystod oes prosiect y gellir cyfrif busnes fel busnes sy'n cael cymorth anariannol.

Gall busnes y cofnodir ei fod yn cael cymorth o dan y dangosydd hwn hefyd gael ei gofnodi fel busnes sy'n cael grantiau ac sy'n cael cymorth ariannol os yw'n cael cymorth perthnasol drwy weithgareddau gwahanol.

Nodir y mathau o gymorth a ragwelir o dan y flaenoriaeth hon yn y Rhaglenni Gweithredol.

Uned:

Busnesau.

Gofynion Data:

Dylid cyflwyno data ar bob busnes sy'n cael cymorth pan fydd wedi'i gynnwys mewn hawliad. Dylai tystiolaeth fod ar gael pan fydd yr hawliad yn cael ei wneud. Ceir rhestr gyflawn o feysydd yn yr Atodiad.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Dylid nodi'r dystiolaeth o gymhwysedd, gweithgareddau ac allbynnau yn y Cynllun Busnes a dylid cytuno arni ar y cyd â WEFO. Bydd angen darparu tystiolaeth o statws BBaCh pob busnes sy'n cael cymorth.

Gall busnesau sy'n cael cymorth o dan ERDF ddefnyddio'r ffurflen ddatgan enghreifftiol yng nghanllawiau'r CE i ddefnyddwyr sy'n BBaChau er mwyn cadarnhau statws BBaCh:

<http://ec.europa.eu/DocsRoom/documents/10109/attachments/1/translations/en/renditions/pdf> . Fel arall, gallai tystiolaeth ddod o gyfrifon y cwmni; cofnodion Tŷ'r Cwmnïau; cronfeydd data megis MINT; croesgyfeiriadau at wybodaeth arall a ddeler gan Lywodraeth Cymru neu sydd eisoes wedi'i chyhoeddi ac ati.

Dylid rhoi manylion am y gweithgareddau a gynhaliwyd a'r berthynas rhwng y rhain a'r allbwn a'r canlyniadau.

Os gwneir gwaith diagnostig, yna dylid cadw copi ar ffeil.

Un enghraifft o dystiolaeth briodol fydd taflenni amser wedi'u llofnodi sy'n rhoi manylion am y gweithgareddau a gynhaliwyd a nifer yr oriau o gymorth.

Buddsoddiad mewn busnesau

Y swm o gymorth ariannol a roddir i fusnesau sy'n cael grantiau, neu gymorth ariannol heblaw grantiau.

Y swm o gymorth yw cyfanswm y swm a roddir i fusnes, h.y. ERDF ynghyd ag Arian Cyfatebol.

Uned:

£ GBP

Gofynion Data:

Dylid cyflwyno data ar bob busnes sy'n cael cymorth pan fydd wedi'i gynnwys mewn hawliad. Dylai tystiolaeth fod ar gael pan fydd yr hawliad yn cael ei wneud. Ceir rhestr gyflawn o feysydd yn yr Atodiad.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Ar gyfer pob buddsoddwr: enw, cyfeiriad, manylion cyswllt.

Llythyr neu ddogfen briodol oddi wrth y buddsoddwr i'r busnes (sy'n cael ei gefnogi gan y prosiect) yn nodi swm y buddsoddiad, diben y buddsoddiad ac unrhw amodau sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiad.

Dylid darparu copi o'r BACS neu Gyfriflen Banc sy'n dangos bod y cyllid wedi cael ei drosglwyddo i gyfrif y busnes.

Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus i BBaChau

Cyfanswm gwerth cyfraniad preifat i BBaChau sy'n cael cymorth.

Gall y gwerth hwn a nodwyd gynnwys Arian Cyfatebol.

Gall buddsoddiad preifat gynnwys buddsoddiad mewn nwyddau os nodir hyn mewn cytundeb ac y gellir ei archwilio. Mae cyfraniadau mewn nwyddau yn cynnwys cyfraniadau i'r prosiect gan y sector preifat (er enghraifft, amser staff, defnydd o gyfarpar ac adnoddau eraill, deunyddiau, darparu data ac ati) fel y'u disgrifiwyd yng nghytundeb y prosiect.

Budsoddiad yw'r swm cronol ar ddiwedd y prosiect a gynhelir ar y cyd â'r BBaCh.

Uned:

£ GBP

Gofynion Data:

Dylid cyflwyno data ar bob busnes sy'n cael cymorth pan fydd wedi'i gynnwys mewn hawliad. Dylai tystiolaeth fod ar gael pan fydd yr hawliad yn cael ei wneud. Ceir rhestr gyflawn o feysydd yn yr Atodiad.

Cymorth Grant: Cofnodwyd y busnes a gafodd gymorth o dan fusnesau sy'n cael grantiau.

Cymorth nad yw'n gymorth grant: Cofnodwyd y busnes a gafodd gymorth o dan fusnesau sy'n cael cymorth ariannol heblaw grantiau.

Math o gyllid:

Arian Cyfatebol £

Arian nad yw'n Arian Cyfatebol £

Tystiolaeth Awgrymedig:

Manylion ar ffurf, natur a swm y buddsoddiad a'r ffordd y mae wedi ychwanegu at y prosiect. Dylai cyfraniadau mewn nwyddau fod 'yn benodol i'r contract', h.y. dylai'r partner allanol fod yn ymwybodol o'r gwerthoedd ariannol tybiedig am ei gyfraniad. Gallai cyfraniadau mewn nwyddau gynnwys, er enghraifft, amser staff, adnoddau, deunyddiau, darparu data ac ati.

Cymeradwyo'r buddsoddiad o £ gan (yn dibynnu ar faint y busnes) y Rheolwr Gyfarwyddwr, y Cyfarwyddwr Ariannol, Rheolwyr Gweithredol neu bwy bynnag a oedd yn gyfrifol am gymryd rhan yng ngweithgarwch y Gronfa Strwythurol.

Dylai'r sawl sy'n llofnodi fod yn gyfarwydd â'r gweithgaredd, ac yn gallu mynegi barn wybodus arno.

Dylid darparu copi o'r BACS neu Gyfriflen Banc sy'n dangos bod y cyllid wedi cael ei drosglwyddo i gyfrif y busnes.

Nifer y busnesau sy'n cael cymorth i gyflwyno cynhyrchion sy'n newydd i'r cwmni

Mae'r dangosydd yn mesur cymorth a roddir i fusnesau i ddatblygu cynnyrch 'sy'n newydd i'r cwmni'. Mae hyn yn cynnwys proses arloesi cyhyd â bod y broses yn cyfrannu at ddatblygu'r cynnyrch. Nid yw prosiectau nad ydynt yn anelu at ddatblygu cynnyrch (sy'n newydd i'r cwmni) wedi'u cynnwys.

Os bydd busnes yn cyflwyno sawl cynnyrch neu'n cael cymorth ar gyfer sawl prosiect, mae'n dal i gael ei gyfrif yn un busnes. Yn achos prosiectau cydweithredol, mae'r dangosydd yn mesur pob busnes sy'n cymryd rhan. Mae prosiectau sy'n cael cymorth sydd â'r nod o gyflwyno cynhyrchion sy'n newydd i'r cwmni ond nad ydynt yn llwyddiannus yn dal i gael eu cyfrif.

Mae *cynnyrch* yn newydd i'r cwmni os na chynhyrchodd y busnes gynnyrch â'r un gweithrediad neu os yw technoleg y broses gynhyrchu yn wahanol yn ei hanfod i dechnoleg y cynhyrchion sydd eisoes wedi'u cynhyrchu. Gallai enghraifft o gynnyrch 'newydd i'r cwmni' gynnwys prynu/trwyddedu eiddo deallusol sydd wedyn yn cael ei ddefnyddio i wella cynhyrchion neu brosesau busnesau.

Gall cynhyrchion fod yn ddiriaethol neu anniriaethol (gan gynnwys gwasanaethau a phrosesau).

Os yw cynnyrch yn newydd i'r farchnad ac i'r cwmni, dylai'r busnes gael ei gyfrif yn erbyn y dangosydd newydd i'r cwmni a'r dangosydd newydd i'r farchnad.

Dylai busnesau sydd wedi'u cynnwys yn y dangosydd hwn hefyd gael eu cofnodi fel rhai sy'n cael grantiau/cymorth ariannol/cymorth anariannol.

Er bod y rhan fwyaf o ddatblygiadau arloesol clasurol yn arwain at gynhyrchion sy'n newydd i'r farchnad ac i'r cwmni, mae'n bosibl bod y cynnyrch yn newydd i'r cwmni ond nid i'r farchnad, e.e. mathau penodol o drosglwyddo technegol.

Uned:

Busnesau

Dylid cyflwyno data ar bob busnes sy'n cael cymorth pan fydd wedi'i gynnwys mewn hawliad. Ceir rhestr gyflawn o feysydd yn yr Atodiad.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Tystiolaeth ddogfennol fanwl o'r gweithgareddau ymchwil a datblygu ac arloesi a gynhaliwyd o ganlyniad i'r cymorth a'r berthynas rhwng y rhain a'r broses o ddatblygu'r cynnyrch. Dylai hyn fod ar gael ar adeg eu cynnwys mewn hawliad.

Hunanddatganiad. Mae'r datganiad, a lofnodwyd gan gyfarwyddwr neu uwch-reolwr yn y Gweithrediad sy'n nodi eu rôl a bod y cynnyrch yn newydd i'r cwmni yn dderbyniol, ond dylai hefyd fanylu ar y camau a gymerwyd i gadarnhau hyn.

Cynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau sy'n cael cymorth

Nifer y swyddi gwaith newydd gros mewn busnesau sy'n cael cymorth sy'n gyfwerth ag amser llawn.

Rhaid bod contract cyflogaeth. Mae FTE yn seiliedig ar oriau o dan contract ac wythnos 30 awr. Nid yw contractau dim oriau wedi'u cynnwys.

Dangosydd 'cyn-ar ôl' yw hwn yn y bôn, sy'n cofnodi'r rhan o'r cynnydd mewn cyflogaeth sydd o ganlyniad uniongyrchol i gwbhau prosiect (ni chyfrifir gweithwyr a gyflogir i roi'r prosiect ar waith). Rhaid bod y swyddi wedi'u llenwi (ni chyfrifir swyddi gwag) *a rhaid eu bod yn cynyddu cyfanswm nifer y swyddi yn y busnes*. Os na fydd cyfanswm y gyflogaeth yn y busnes yn cynyddu, nodir dim gwerth – caiff ei ystyried yn ailalinio, yn hytrach na chynnydd. Nid yw swyddi sydd wedi'u diogelu ac ati wedi'u cynnwys.

Dylai data ar swyddi a grëwyd lle nad oes 'cynnydd yng nghyfanswm nifer y swyddi yn y busnes' gael eu cofnodi a'u defnyddio at ddibenion gwerthuso.

Gros: Heb gyfrif tarddiad deiliad y swydd cyhyd â'i fod yn cyfrannu'n uniongyrchol at y cynnydd yng nghyfanswm nifer y swyddi yn y sefydliad. Dylid defnyddio'r dangosydd os gall y cynnydd mewn cyflogaeth gael ei briodoli'n gredadwy i'r cymorth.

Hyd: Disgwylir i swyddi fod yn barhaol, h.y. para am gyfnod cymharol hir yn dibynnu ar nodweddion diwydiannol-dechnolegol; dylai swyddi tymhorol fod yn gylchol.

Caiff ffigurau busnesau a aeth yn fethdalwyr eu cofrestru fel dim cynnydd mewn cyflogaeth.

Amseriad: Caiff data eu casglu cyn i'r prosiect ddechrau a hyd at 12 mis ar ôl yr ymyriad.

Uned:

FTE (oriau o dan contract yn seiliedig ar wythnos 30 awr)

Gofynion Data:

Mae'n rhaid nodi rhywedd deiliad cyntaf y swydd.

Bandiau Cyflog (0-£14,999; £15,000 – £19,999; £20,000 - £24,999; £25,000 - £34,999; £35,000 ac uwch.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Gellir dangos tystiolaeth o gynnydd mewn cyflogaeth drwy hunanddatganiad. ***Dylid cytuno ar fformat y ffurflen hunanddatgan â WEF0 a dylid ei hatodi i'r Cynllun Monitro a Gwerthuso***, ond dylai gynnwys manylion y swyddi a grëwyd, bod y cynnydd o ganlyniad i ymyriad EDFR, cynnwys band cyflog a rhywedd y deiliad

swydd cyntaf. Dylai'r datganiad gael ei lofnodi gan gyfarwyddwr neu uwch-reolwr, a ddylai nodi ei rôl.

Swyddi wedi'u diogelu: Cymorth ariannol nad yw'n grant

Nifer y swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) sydd wedi'u diogelu mewn menter o ganlyniad i gymorth ariannol nad yw'n grant gan weithrediad a ariennir gan ERDF. Mae rhaid bod y swydd(i) wedi ei/eu llenwi (nid yw swyddi gwag yn cyfrif), rhaid ei/eu bod wedi bodoli yn y fenter cyn yr ymyrraeth gan y gweithrediad a rhaid i'r swydd(i) fod wedi ei/eu hystyried i fod mewn perygl o gael ei/eu colli cyn ymyrraeth ERDF.

Gellir hawlio am swyddi sydd wedi'u diogelu o ganlyniad i gymorth ariannol nad yw'n grant ar yr adeg y mae'r fenter yn derbyn y buddsoddiad, a dylid ystyried hyn fel diwedd yr ymyriad.

Uned:

Swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)

Er enghraifft, os yw swydd yn golygu gweithio 30 awr neu fwy yr wythnos, yna mae'n 1 FTE (wedi'i gapio ar 1). Os nad yw swydd yn llawn amser, yna bydd angen rhannu'r oriau a weithir bob wythnos â 30 i roi cyfran yr FTE a gynrychiolir. Er enghraifft, byddai 18 awr yr wythnos yn 0.6 FTE. Os nad oes data FTE ar gael, gellir cofnodi swydd ran-amser fel 0.5.

Dylai swyddi fod yn barhaol. Ni chaiff contractau dim oriau eu cynnwys.

Tystiolaeth a Awgrymir:

Copi o gais y fenter am fuddsoddiad (a ddylai gynnwys manylion am y swyddi FTE y mae'r ymgeisydd yn ystyried eu bod mewn perygl o gael eu colli o fewn blwyddyn os nad yw'r ymgeisydd yn llwyddo i gael y buddsoddiad y gofynnir amdano) a chadarnhad bod y fenter wedi derbyn swm y buddsoddiad drwy gopi o'r BACS neu Ddatganiad Banc yn dangos bod yr arian wedi'i drosglwyddo i gyfrif y fenter, fel y gwelir o dan y dangosydd: 'Buddsoddi mewn mentrau'.

Cynnydd mewn lefelau allforio

Gwerth gros busnesau allforio newydd (nwyddau a gwasanaethau) a sicrhawyd gan fusnesau yn sgil ymyriad y Gronfa Strwythurol. Gall hyn fod yn ymyriad untro neu'n barhaus. Dylai buddiannau parhaus gael eu sgorio unwaith fel ffigur blynyddol sy'n seiliedig ar berfformiad presennol.

Dylid cofnodi'r ffigur blynyddol o fewn blwyddyn i'r ymyriad.

Os yw prosiect yn cael help neu gymorth ariannol fwy nag unwaith, dylid cyfrifo'r cynnydd untro neu flynyddol yn lefel yr allforion ar sail gronol, ar yr amod ei fod yn ychwanegol.

Enghreifftiau o werth busnes allforio newydd:

- Archeb untro gan gwsmer o'r tu allan i'r DU, gyda'r gwerth wedi'i fynegi mewn £.
- Contract yn ôl y gofyn / contract tymor penodol wedi'i lofnodi â chwsmer y tu allan i'r DU, gwerth ymrwymiad blwyddyn 1 wedi'i fynegi mewn £.

Allforio nwyddau: nwyddau sy'n gadael tiriogaeth ystadegol y DU.

Allforio gwasanaethau: gwasanaethau lle mae'r cwsmer y tu allan i diriogaeth ystadegol y DU (CE, 2014).

Uned:

£ GBP

Tystiolaeth Awgrymedig:

Cymeradwyo gwerth (£) y busnes allforio (nwyddau a gwasanaethau) a grëwyd gan (yn dibynnu ar faint y busnes) y Rheolwr Gyfarwyddwr, y Cyfarwyddwr Ariannol, y Rheolwr Gweithredol neu bwy bynnag a oedd yn gyfrifol am gymryd rhan yng ngweithgaredd y Gronfa Strwythurol. Dylid casglu tystiolaeth yn barhaus wrth dderbyn archebion newydd.

Nifer y busnesau newydd sy'n cael cymorth

Nifer y busnesau a grëwyd ar ôl cael cymorth ariannol, cyngor neu fath arall o gymorth gan ERDF neu gyfleuster a ariennir gan ERDF.

Ni ddylai'r busnes a grëir fod wedi bodoli cyn gweithgarwch y Gronfa Strwythurol.

Ni fydd busnes yn dod yn fusnes newydd os mai dim ond ei ffurf gyfreithiol sy'n newid.

Dylid ystyried goroesiad busnesau a grëwyd fel rhan o'r gwerthusiad.

Uned:

Busnesau.

Gofynion Data:

Dylid cyflwyno data ar bob busnes sy'n cael cymorth pan fydd wedi'i gynnwys mewn hawliad. Dylai tystiolaeth fod ar gael pan fydd yr hawliad yn cael ei wneud. Ceir rhestr gyflawn o feysydd yn yr Atodiad.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Un neu fwy o'r canlynol:

Erthyglau Cymdeithasu; Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, Datganiad Cenhadaeth, Cynllun Busnes.

Tystiolaeth o ddarparu'r gwasanaeth/nwyddau cyntaf – fel arfer y dyddiad y codir yr anfoneb gyntaf.

Y dyddiad y mae'r busnes yn cofrestru ar gyfer TAW os yw'n briodol.

Gellir rhoi tystiolaeth o fusnesau newydd sy'n gweithredu islaw'r trothwy TAW drwy hunanddatganiad. Dylai'r datganiad gael ei lofnodi gan uwch-reolwr yn y busnes, a ddylai nodi ei rôl; bod y busnes newydd islaw'r trothwy TAW a'i fod wedi'i greu o ganlyniad uniongyrchol i gael cymorth ariannol, cyngor neu fath arall o gymorth gan y Gweithrediad a ariennir gan ERDF.

Mewn achosion lle nad yw'r uchod yn berthnasol o reidrwydd, gellir pennu dechrau'r busnes drwy ddatblygu'r fantolen: buddsoddi mewn asedau at ddibenion y buses; neu agor cyfrif banc busnes.

Busnesau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro

Nifer y busnesau sy'n mabwysiadu strategaeth sy'n amlinellu'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu gan y cyflogwr a'i staff er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a herio gwahaniaethu a monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn. Rhaid i'r strategaethau cydraddoldeb a'r systemau monitro fod wedi'u mabwysiadu neu wedi'u gwella o ganlyniad i gymorth neu gymorth ariannol gan y Gronfa Strwythurol.

Uned:

Busnesau

Gofynion data:

Dylid cyflwyno data ar bob busnes sy'n cael cymorth pan fydd wedi'i gynnwys mewn hawliad. Dylai tystiolaeth fod ar gael pan fydd yr hawliad yn cael ei wneud. Ceir rhestr gyflawn o feysydd yn yr Atodiad.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Ar gyfer busnesau newydd eu ffurfio neu'r busnesau bach hynny nad ydynt wedi datblygu Polisi Cyfle Cyfartal hyd yma, mae llunio neu fabwysiadu polisi o'r fath, sy'n benodol i'r busnes, ochr yn ochr â chynllun monitro, yn dderbyniol. (D.S. dylai'r cynllun monitro ymwneud â phryd y caiff y polisi ei adolygu)

Tystiolaeth o weithredu drwy fynediad at y Polisi Cyfleoedd Cyfartal a'r cynllun monitro penodol, ynghyd â chadarnhad ysgrifenedig gan y person priodol (Prif Swyddog Gweithredol, Rheolwr Gweithrediad) bod y busnes wedi mabwysiadu'r polisi.

Ar gyfer *busnesau sefydledig*, tystiolaeth o linell sylfaen gydag adolygiad o'r sefyllfa bresennol o ran strategaeth cydraddoldeb a system fonitro. Tystiolaeth o 'welliant i'w wneud y cytunwyd arno neu welliannau i'w gwneud y cytunwyd arnynt a'r cam/au sy'n cefnogi'r gwelliant, ynghyd â chadarnhad ysgrifenedig gan y person priodol (Prif Swyddog Gweithredol, Rheolwr Gweithrediad) bod y busnes wedi mabwysiadu'r gwelliant.

Ceir enghreifftiau o dystiolaeth sy'n dangos gwelliant mewn Strategaeth Cynaliadwyedd yn y Canllawiau ar Themâu Trawsbynciol. Dolen:

<http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/applying/cross-cutting-guidance/?skip=1&lang=cy>

<http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/applying/cross-cutting-guidance/?lang=en>

Busnesau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro

Nifer y busnesau sy'n mabwysiadu strategaeth sy'n amlinellu'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu gan y cyflogwr a'i staff er mwyn hyrwyddo datblygu cynaliadwy, a monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn.

Uned:

Busnesau

Gofynion data:

Dylid cyflwyno data ar bob busnes sy'n cael cymorth pan fydd wedi'i gynnwys mewn hawliad. Dylai tystiolaeth fod ar gael pan fydd yr hawliad yn cael ei wneud. Ceir rhestr gyflawn o feysydd yn yr Atodiad.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Ar gyfer busnesau newydd eu ffurfio neu'r busnesau bach hynny nad ydynt wedi datblygu Polisi Datblygu Cynaliadwy hyd yma, mae llunio neu fabwysiadu polisi o'r fath, sy'n benodol i'r busnes, ochr yn ochr â chynllun monitro, yn dderbyniol. (D.S. dylai'r cynllun monitro ymwneud â phryd y caiff y polisi ei adolygu)

Tystiolaeth o weithredu drwy fynediad at y Polisi Datblygu Cynaliadwy a'r cynllun monitro penodol, ynghyd â chadarnhad ysgrifenedig gan y person priodol (Prif Swyddog Gweithredol, Rheolwr Gweithrediad) bod y busnes wedi mabwysiadu'r polisi.

Ar gyfer busnesau sefydledig, tystiolaeth o linell sylfaen gydag adolygiad o'r sefyllfa bresennol o ran strategaeth datblygu cynaliadwy a system fonitro. Tystiolaeth o 'welliant i'w wneud y cytunwyd arno neu welliannau i'w gwneud y cytunwyd arnynt a'r cam/au sy'n cefnogi'r gwelliant, ynghyd â chadarnhad ysgrifenedig gan y person priodol (Prif Swyddog Gweithredol, Rheolwr Gweithrediad) bod y busnes wedi mabwysiadu'r gwelliant.

Ceir enghreifftiau o dystiolaeth sy'n dangos gwelliant mewn Strategaeth Datblygu Cynaliadwy yn y Canllawiau ar Themâu Trawsbynciol.

Dolen: <http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/applying/cross-cutting-guidance/?skip=1&lang=cy>

<http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/applying/cross-cutting-guidance/?lang=en>

Atodiad A:Cronfa ddata o Fusnesau

Ceir fersiynau cyfredol o'r gronfa ddata o Fusnesau ar lefel micro (fersiynau PDF ac Excel) drwy ddilyn y dolenni canlynol:

CYMRAEG: <http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/delivering-your-project/erdf-indicators/?skip=1&lang=cy>

SAESNEG: <http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/delivering-your-project/erdf-indicators/?lang=en>



Mwy o wybodaeth:

www.gov.wales/eu-funding

@wefowales / @wefocymru

Desg Gymorth Ymholiadau 0845 010 3355

**Cronfeydd yr UE:
Buddsoddi yng
Nghymru**
**EU Funds:
Investing in Wales**



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government